Prifysgol **Wrecsam**
**Wrexham** University

**WEDI'I GADARNHAU**

Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Llywodraethwyr a gynhaliwyd am 9.00am ddydd Gwener 8 Mawrth 2024, Ystafell Erddig, Prifysgol Wrecsam

**Yn bresennol:**
Dr Leigh Griffin
(Cadeirydd) Amy
Anglesea
Paul Barlow
Richard Campbell
Yr Athro Martin Chambers
Dr Sarah Dubberley
Maisie Head Dr
Karen Heald
Yr Athro Maria Hinfelaar
Claire Homard
Yr Athro Sandra Jowett
Sally Lambah
Diane McCarthy
David Subacchi
Will Naylor
Richard Thomas
Maureen Wain

**Swyddogion:**
David Clarke (Clerc i'r Bwrdd)
Yr Athro Richard Day (Dirprwy Is-Ganghellor ar gyfer Ymchwil)
David Elcock (Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol)
Yr Athro Ieuan Ellis (Dirprwy Is-Ganghellor Prosiectau Newid Strategol Dros Dro)
Pete Gibbs (Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol)
Lynda Powell (Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau)

**Yn mynychu:**
Alison Bloomfield (*Pennaeth Datblygu Sefydliadol ac Amrywiaeth*) *ar gyfer eitem BG2324/62*
Yasmin Washbrook *(Arweinydd Prosiect Siarter Cydraddoldeb Hiliol) ar gyfer eitem BG2324/62*
Dr Ian Barwick *(Pennaeth Busnes a Gwasanaethau OpTIC) ar gyfer eitem BG2324/65*

**Ymddiheuriadau:**
Fabrizio
Trifiro Liam
Wynne

| | | |
|---|---|---|
| **BG2324/54** | **Croeso ac ymddiheuriadau** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau. | |
| **BG2324/55** | **Datgan gwrthdaro rhwng buddiannau** | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Adroddwyd:**<br>Datganodd Claire Homard wrthdaro posibl rhwng buddiannau yn ei rôl fel un o weithwyr Cyngor Sir y Fflint, lle byddai ceisiadau a datblygiadau cynllunio posibl yn Llaneurgain yn cael eu trafod o dan eitem 17. Nodwyd nad oedd unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud yn y cyfarfod hwn, ac nad oedd yr aelod yn gysylltiedig ag unrhyw benderfyniadau cynllunio yn y Cyngor. | |
| **BG2324/56** | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24ain Tachwedd 2023<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO'R cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod. | |
| **BG2324/57** | **Cofnod camau gweithredu** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnod o gamau gweithredu sy'n deillio o gyfarfodydd blaenorol<br><br>**Adroddwyd:**<br>Derbyniodd y Bwrdd adroddiad ar y camau gweithredu a ddeilliodd o gyfarfod mis Tachwedd fel a ganlyn:<br><br>(i) Partneriaethau Academaidd: Cynnig ynghylch fframwaith a phroses ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer partneriaid (Cyfeiriad yng nghofnodion BG2324/13 a BG2324/41)<br><br>Cafodd y Weithdrefn Partneriaethau Academaidd newydd ei hystyried gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2023, lle cafodd y gymeradwyaeth derfynol ei dirprwyo i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd (AQSC). Cymeradwyodd AQSC y weithdrefn yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2024, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau pellach. Ystyriwyd bod yr eitem hon bellach wedi cau.<br><br>(ii) Partneriaethau Academaidd: Campws Manceinion (Cyfeiriad yng nghofnodion BG2324/13 a BG2324/42)<br><br>Adroddwyd bod y cynnig ynghylch sefydlu campws ym Manceinion wedi'i ohirio am gyfnod amhenodol, ac ystyrir bellach bod cymeradwyaeth y Bwrdd wedi dod i ben. Pe bai'r Brifysgol yn dymuno ailedrych ar y bartneriaeth yn y dyfodol, mae'n annhebygol y byddai achos busnes llawn yn cael ei gyflwyno. Ystyriwyd bod yr eitem hon bellach wedi cau.<br><br>(iii) Adroddiad Cyrhaeddiad a Chwblhau: archwilio'r defnydd o fesuriadau 'cynnydd dysgu' neu 'bellter a deithiwyd' i hysbysu adroddiadau mewn blynyddoedd i ddod (Cyfeiriad yng nghofnod BG2324/37)<br><br>Roedd Cyfarwyddwr SPSA wedi dweud y byddai hyn yn cael ei ystyried ar gyfer ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd problem oherwydd nad oedd gan lawer o fyfyrwyr (yn enwedig y rheini a oedd yn gwneud cais uniongyrchol a/neu'r rheini a oedd â'r cymwysterau isaf) gymwysterau mynediad yn aml. Cydnabu'r aelodau yr her hon ond nid oeddent am i hyn | |

| | | |
|---|---|---|
| | fod yn rheswm dros beidio â'i wneud. Gofynnodd yr aelodau am ystyriaeth bellach o dderbyniadau cyd-destunol a sut y gellid dod o hyd i fethodoleg briodol.<br><br>(iv) Rhagolygon ariannol Ch1: Bydd perfformiad mewn perthynas â gofynion UKVI yn cael ei ychwanegu fel DPA corfforaethol ar gyfer 2023/24 ac yn cael ei adrodd yn flynyddol fel rhan o'r broses honno (Mae cyfeiriad yng nghofnod BG2324/38)<br><br>Awgrymwyd, o leiaf, y dylai'r Brifysgol fabwysiadu'r tri maen prawf sy'n ffurfio 'Asesiad Cydymffurfio Sylfaenol' (BCA) UKVI fel dangosyddion perfformiad allweddol; roedd y rhain yn cynnwys cyfradd gwrthod, cyfradd gofrestru, a chyfradd cwblhau cyrsiau.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R cofnod camau gweithredu | **Cyfarwyddwr SPSA**<br><br><br><br><br><br><br>**Cyfarwyddwr SPSA** |
| **BG2324/58** | **Adroddiad Undeb y Myfyrwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar weithgarwch Undeb y Myfyrwyr<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Llywydd ac Is-lywydd Undeb y Myfyrwyr yr adroddiad ar weithgarwch diweddar, gan dynnu sylw at nifer o feysydd allweddol yn yr adroddiad:<br><br>• Gwaith cydweithredol gyda staff Gwasanaethau Myfyrwyr i hyrwyddo a chodi proffil y gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr;<br>• Gweithio i ymgorffori adborth myfyrwyr wrth ddylunio a chyflwyno seremonïau graddio 2024;<br>• Ymarfer mapio rôl myfyrwyr i amlygu'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr tra yn y Brifysgol;<br>• Etholiad llwyddiannus Cadeirydd Cyngor y Myfyrwyr o fis Medi 2024;<br>• Cynhelir Cynhadledd NUS Cymru ym mis Mawrth, gyda Wrecsam yn dangos arweiniad yn y sector drwy gyflwyno newidiadau polisi am yr ail flwyddyn yn olynol<br>• Cynnydd da wedi'i wneud o ran cyflawni amcanion maniffesto'r Llywydd a'r Is-lywydd, gan gynnwys gwaith ar asesu ac adborth, hyfforddiant priodol i staff Undeb y Myfyrwyr i ddarparu cyngor a chymorth, a meithrin cysylltiadau ag elusennau lleol a sefydliadau allanol;<br>• Roedd cynnydd yn cael ei wneud o ran ymarfer ail-frandio Undeb y Myfyrwyr. Roedd y cam ymgynghori wedi'i gwblhau, ac roedd yr ail-frandio ar y trywydd iawn i gael ei lansio o fis Medi 2024 ymlaen;<br>• Parhaodd Bar Glyn i ffynnu, gyda mwy o ymgysylltu gan fyfyrwyr ac incwm sylweddol drwy agor ar ddiwrnodau gemau Clwb Pêl-droed Wrecsam;<br>• Roedd yr enwebiadau ar gyfer gwobrau Undeb y Myfyrwyr ar agor ar hyn o bryd, a bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal ddydd Gwener 10 Mai 2024. Atgoffwyd y llywodraethwyr bod yr holl aelodau wedi cael eu gwahodd i'r digwyddiad. | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Roedd etholiadau ar y gweill ar gyfer swyddogion Undeb y Myfyrwyr 2024/25. Roedd Maisie Head yn sefyll yn ddiwrthwynebiad i gymryd lle Amy Anglesea fel Llywydd pan ddaeth ei thymor i ben.<br><br>Diolchodd y Bwrdd i Undeb y Myfyrwyr am adroddiad rhagorol. Croesawodd yr aelodau lwyddiant Bar Glyn, gan nodi ei fod yn fodel trawiadol o ymgysylltu mewnol ac allanol a symbol o iechyd Undeb y Myfyrwyr. Nodwyd hefyd bod Cymdeithas y Celfyddydau Perfformio wedi llwyddo i sicrhau cyllid i wella offer AV ym Mar Glyn a fyddai'n gwella digwyddiadau, ac yn cryfhau cysylltiadau â Theatr Clwyd.<br><br>Dywedodd yr aelodau fod y cyfle i ymgysylltu ag Undeb y Myfyrwyr yn ystod Diwrnod Strategaeth y Bwrdd ym mis Ionawr wedi cael derbyniad da iawn. Cytunwyd y byddai cyfleoedd i orgyffwrdd gweithgareddau'r Bwrdd â digwyddiadau Undeb y Myfyrwyr yn cael eu harchwilio yn 2024/25. | **DC/MH** |
| **BG2324/59** | **Adroddiad yr Is-Ganghellor** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad diweddaru gan yr Is-Ganghellor<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd yr Is-Ganghellor ei hadroddiad, gan dynnu sylw at weithgarwch diweddar a newyddion y sector gan gynnwys:<br><br>• Roedd cynhadledd ddiweddar Universities UK (UUK) yn Llundain wedi canolbwyntio ar gynaliadwyedd ariannol yn y sector. Roedd hyn wedi cynnwys trafodaeth banel ynghylch sut y gallai ansolfedd Prifysgol ddatblygu, gan dynnu sylw at y cymhlethdodau o ystyried amrywiaeth portffolio nodweddiadol Prifysgol. Nodwyd, mewn senario ansolfedd, y byddai'r dyledwyr ariannol yn debygol o olygu na fyddai Cynlluniau Diogelu Myfyrwyr yn flaenoriaeth ar unwaith. Nodwyd bod rheoleiddwyr yn rhoi sylw i nifer o Sefydliadau Addysg Uwch yn Lloegr a oedd, yn ôl y sôn, yn wynebu problemau ariannol difrifol. Roedd cynhadledd UUK hefyd wedi cyfeirio at adroddiad gan Focal Data a gomisiynwyd i edrych ar farn y cyhoedd am AU. Roedd y canlyniadau'n tynnu sylw at ganfyddiadau cadarnhaol y cyhoedd o fanteision addysg uwch o ran yr economi a'r effaith ehangach ar gymunedau. Nodwyd nad oedd y cyhoedd na Phrifysgolion yn dymuno gweld cynnydd mewn ffioedd dysgu, ond roedd yr her yn parhau o ran sut y byddai Prifysgolion yn cau'r bwlch cyllido hwnnw.<br><br>• Yng Nghymru, roedd y sector yn gweithio tuag at y dyddiad gweithredu newydd sef 1 Awst 2024 i CTER ddechrau fel rheoleiddiwr. Roedd yr Is-Ganghellor wedi cwrdd â Simion Pirotte, Prif Swyddog Gweithredol CTER, i roi gwybodaeth iddo am ddatblygiadau yn y Brifysgol a siarad am bontio i'r rheoleiddiwr newydd a'r disgwyliadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Diolchodd yr aelodau i'r Is-ganghellor am ei hadroddiad. Nodwyd, er nad oedd unrhyw bryderon brys ynghylch Wrecsam, roedd y bygythiad o fethiant ariannol yn dod yn fwy tebygol i Brifysgolion yn ogystal ag awdurdodau lleol. Holodd yr aelodau a oedd yn ofynnol i bob Prifysgol, fel awdurdodau lleol, fod â chynlluniau wrth gefn ar waith pe bai'r sefyllfa honno'n datblygu. Adroddwyd ei bod yn ofynnol i brifysgolion fod â chynlluniau diogelu myfyrwyr ar waith i sicrhau | |

| | | |
|---|---|---|
| | 'gadael yn drefnus' os a phan fo angen. Roedd Sefydliadau Addysg Uwch Cymru hefyd yn ddarostyngedig i'r Adolygiad Risg Sefydliadol (IRR) a oedd yn archwilio cynaliadwyedd ariannol, ac roedd y rheoleiddiwr yn monitro sefydliadau'n agos iawn.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad | |
| **BG2324/61** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Derbyniodd y Bwrdd adroddiad llafar gan y Cadeirydd a oedd yn ymdrin â'r meysydd canlynol:<br><br>• Ynghyd ag aelodau o VCET, roedd y Cadeirydd wedi cwrdd ag amrywiaeth o randdeiliaid yn ddiweddar mewn cinio a gynhaliwyd gan y Brifysgol i gymryd rhan mewn ymgynghoriad allanol ynghylch strategaeth newydd y Brifysgol. Dywedwyd bod model a fformat y digwyddiad wedi bod yn llwyddiannus.<br><br>• Roedd y Brifysgol wedi croesawu amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys gweinidogion y llywodraeth ar gyfer y seremoni ddiweddar i dorri tywarchen ar gyfer adeilad EEOC. Nodwyd bod hwn yn achlysur arwyddocaol fel y datblygiad cyntaf dan Fargen Twf Gogledd Cymru. Diolchwyd i Paul Barlow am gynrychioli'r Bwrdd yn rhinwedd ei swydd fel Is-gadeirydd y Bwrdd, a Chadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid.<br><br>• Roedd recriwtio i rolau uwch yn mynd rhagddo. Roedd cyfweliadau ar gyfer swydd yr Is-Ganghellor i fod i gael eu cynnal ar 12 Ebrill, ac roedd dull dau gam ar waith i benodi'r Dirprwy Is-Ganghellor a fyddai'n debygol o ddod i ben erbyn dechrau mis Mai. Nodwyd y byddai penodiad yr Is-Ganghellor yn debygol o ddigwydd yn gyntaf, a allai olygu bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael mewnbwn i gam terfynol proses y Dirprwy Is-Ganghellor. Diolchodd y Bwrdd i aelodau o staff a oedd yn cyflawni dyletswyddau fel rhan o'r trefniadau rheoli dros dro.<br><br>• Nodwyd ansawdd rhaglen digwyddiadau Theatr Clwyd a gynhaliwyd yn Neuadd William Aston y Brifysgol, gyda rhai perfformwyr nodedig i fod i berfformio yn ystod y misoedd nesaf. Teimlwyd bod hyn yn adlewyrchu enw da cynyddol Wrecsam fel dinas. Nodwyd y gellid gwneud mwy i annog myfyrwyr i ymgysylltu, ond er bod Theatr Clwyd yn cynnig gostyngiad i fyfyrwyr ar gyfer eu sioeau eu hunain, roedd sioeau teithiol cenedlaethol yn gosod eu prisiau eu hunain ac nid oeddent yn cynnig consesiynau.<br><br>• Roedd sylw diweddar yn y cyfryngau wedi tynnu sylw at faterion yn ymwneud â chamymddwyn rhywiol ac ymddygiad amhriodol yn y sector AU. Er nad yn gysylltiedig â Wrecsam, roedd y Cadeirydd yn awyddus i archwilio sut y gallai'r Bwrdd helpu i atgyfnerthu'r gwaith sydd eisoes yn digwydd yn Wrecsam i herio agweddau a sefydlu diwylliant dim goddefgarwch yn y Brifysgol. Nodwyd bod hyfforddiant cydsynio i fod i gael ei ymgorffori yn y broses o gofrestru myfyrwyr<br>ac ymsefydlu, er bod cyfle i gysylltu â Theatr Clwyd ar waith | |

| | | |
|---|---|---|
| | roeddent yn ei wneud i godi ymwybyddiaeth o gamymddygiad rhywiol ac arferion sy’n seiliedig ar drawma.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI’R adroddiad | |
| **BG2324/62** | **Dan sylw: Siarter Cydraddoldeb Hiliol** | |
| | *Mynychodd Alison Bloomfield (Pennaeth Datblygu Sefydliadol ac Amrywiaeth) ac Yasmin Washbrook (Arweinydd Prosiect Siarter Cydraddoldeb Hiliol) ar gyfer yr eitem hon.*<br><br>**Derbyniwyd:**<br><br>Rhoddodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol ac Amrywiaeth ac Arweinydd y Prosiect Siarter Cydraddoldeb Hiliol gyflwyniad ar y cynnydd tuag at gyflwyno’r Siarter Cydraddoldeb Hiliol (REC), a oedd yn cael ei yrru gan dîm hunanasesu a sefydlwyd ac a arweinir gan Adnoddau Dynol. Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda’r bwriad o gyflwyno cais am Wobr Efydd ym mis Mawrth 2025. Roedd y cyflwyniad yn ymdrin ag ystod eang o weithgareddau a phwyntiau allweddol gan gynnwys:<br><br>• Roedd ymgeisio am y wobr a’r broses wrth arwain ati yn gamau sylweddol tuag at Wrecsam yn cael ei chydnabod fel sefydliad gwrth-hiliol; roedd Llywodraeth Cymru yn anelu at sicrhau bod Cymru’n wlad wrth-hiliol gydnabyddedig erbyn 2030;<br><br>• Dywedwyd bod 'teimlad cymunedol' gwirioneddol yn Wrecsam, a oedd wedi ychwanegu gwerth enfawr at y gwaith REC gan fod staff a myfyrwyr wedi teimlo eu bod yn gallu rhannu profiadau bywyd a rhannu yn y broses ddysgu;<br><br>• Roedd cynllun gweithredu REC wedi'i ddatblygu, yn canolbwyntio ar ystod eang ar draws y Brifysgol, yn cyd-fynd â strategaethau mewnol y Brifysgol yn ogystal â chynllun gweithredu gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru;<br><br>• Roedd dull gweithredu ar draws y Brifysgol gyfan yn cael ei ddefnyddio wrth ddatblygu’r cyflwyniad REC, gyda’r bwriad o sicrhau bod gweithgarwch yn gynaliadwy ac wedi’i wreiddio ar draws y sefydliad.<br><br>• Roedd llawer iawn o waith eisoes wedi’i wneud, gan gynnwys darparu hyfforddiant, dadansoddi data, arolygon, grwpiau cymheiriaid, datblygu polisi, darparu digwyddiadau a gweithgareddau, ac adolygu’r rhwystrau i gael mynediad at AU;<br><br>• Cynhaliwyd adolygiad canol tymor o’r gwaith ar y cyflwyniad hyd yma yn ddiweddar gan Advance HE. Bu’r adolygiad hwn yn ymarfer defnyddiol, gan nodi meysydd o arfer da a rhai meysydd i’w datblygu ymhellach – gan gynnwys trosglwyddo data i gamau gweithredu cadarnhaol a phendant;<br><br>Diolchodd y Bwrdd i’r staff a’r tîm hunanasesu ehangach am y cyflwyniad a nododd ei gefnogaeth i’r gwaith hynod bwysig hwn. Er bod y Brifysgol yn gweithio tuag at y wobr Efydd, nodwyd bod hwn yn far uchel iawn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | – Adroddwyd mai dim ond un Brifysgol oedd wedi ennill gwobr Arian. Cafwyd trafodaeth wedyn lle codwyd nifer o bwyntiau fel a ganlyn:<br><br>• O ran hil ac ethnigrwydd, nodwyd bod diffyg amrywiaeth yn Wrecsam fel dinas; roedd yr aelodau'n cydnabod y gallai fod rhai heriau cysylltiedig i'w goresgyn mewn perthynas â hynny;<br><br>• Nodwyd bod y Cadeirydd yn ymwneud â chynllun mentora cilyddol o fewn y GIG, yn ogystal â gwaith o fewn y sector AU ar y gwrthdaro presennol yn Gaza a rheoli tensiynau cysylltiedig ar gampysau'r Brifysgol; roedd y ddau yn werthfawr iawn;<br><br>• Awgrymwyd y gellid cydnabod gwaith a wnaed gan y Bwrdd, gan gynnwys ei waith ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (a chynllun gweithredu cysylltiedig) ynghyd â gweithgareddau eraill y Brifysgol a restrir fel rhan o'r cyflwyniad;<br><br>• Nododd yr aelodau fod y Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn derbyn adroddiadau a diweddariadau manwl ar lawer o'r gwaith hwn, a bod gan y Bwrdd lefel dda o oruchwyliaeth ar y materion hyn;<br><br>• Nododd yr aelodau ehangder y data a oedd ar gael a oedd yn rhoi cipolwg ar faterion gan gynnwys recriwtio staff a bylchau mewn dyfarniadau cyflog; roedd yn bwysig defnyddio'r data hwnnw i ysgogi effaith a deall y croestoriadedd ynghylch materion penodol. Adroddwyd bod cydweithwyr Adnoddau Dynol yn adolygu prosesau recriwtio i sicrhau cynhwysiant, ac yn archwilio a oedd unrhyw dueddiadau data ar lefel cyfadran neu adran a fyddai'n helpu i nodi meysydd i weithredu arnynt. Roedd pecyn hyfforddi'n cael ei ddatblygu fel dilyniant i'r gwaith hwn. Nododd yr aelodau faint a chwmpas sylweddol y prosiect hwn;<br><br>• Awgrymwyd y dylai unrhyw gyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer staff yn y dyfodol hefyd fod ar gael i aelodau'r Bwrdd a, lle bo hynny'n briodol, dylent fod yn orfodol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad | |
| **BG2324/63** | **Diweddariad ar Strategaeth y Brifysgol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Diweddariad ar ddatblygiad Strategaeth newydd y Brifysgol hyd at 2030<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor ar gyfer Prosiectau Newid Strategol adroddiad ar gynnydd o ran datblygu Strategaeth newydd y Brifysgol. Roedd chwe wythnos wedi mynd heibio ers Diwrnod Datblygu Strategaeth y Bwrdd ac roedd y gwaith wedi parhau ers hynny, gyda'r cynnydd yn cynnwys; | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Ail-lunio rhai o'r datganiadau sy'n ymwneud â chenhadaeth, gweledigaeth, gwerthoedd a themâu yn seiliedig ar adborth y Bwrdd ar Ddiwrnod Datblygu'r Strategaeth;<br><br>• Roedd digwyddiad cinio i randdeiliaid wedi cael ei gynnal yn y Brifysgol i ymgysylltu â sefydliadau allanol mewn ymgynghoriad; roedd hyn wedi cael derbyniad da iawn ac roedd partneriaid yn cefnogi cyfeiriad y gwaith;<br><br>• Roedd y Dirprwy Is-Ganghellor Prosiectau Newid Strategol yn bwriadu nodi rhai targedau lefel uchel a chynllun ar gyfer 2024/25 i helpu i weithredu'r strategaeth ar ôl ei lansio;<br><br>• Roedd staff marchnata yn ystyried sut y gallai gwefan y Brifysgol 'roi'r strategaeth ar waith';<br><br>• Roedd arweinyddiaeth y gyfadran yn gweithio i adolygu meysydd o gryfder academaidd o fewn y portffolio;<br><br>• Nodwyd pwysigrwydd diwylliant Cymreig fel cryfder a philer hynod bwysig; roedd yr aelodau'n awyddus i sicrhau bod yr ymrwymiad strategol hwn yn glir yn y strategaeth;<br><br>Croesawodd yr aelodau'r adroddiad hwn, gan nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud a'r bwriad i'r Bwrdd ystyried y drafft yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024. Nodwyd y dylai'r amserlen hon ganiatáu i'r Is-Ganghellor newydd ddarparu mewnbwn, a disgwylir penodiad ym mis Ebrill 2024. Awgrymodd yr aelodau y byddent yn awyddus i archwilio sut y byddai'r strategaeth, ar ôl iddi gael ei chymeradwyo, yn cael ei chynnwys mewn cynlluniau gweithredol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad | |
| **BG2324/64** | **Adroddiad Rheolaeth Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad Rheolaeth Ariannol Grŵp y Brifysgol ar 31 Ionawr 2024<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol yr FMR a thynnodd sylw at y penawdau canlynol:<br><br>• Y rhagolwg cyfunol blwyddyn lawn oedd gwarged grŵp o £3.56m yn erbyn gwarged wedi'i gyllidebu o £0.1m<br>• Roedd y gwarged gweithredol blwyddyn lawn a ragwelwyd yn £0.43m yn erbyn gwarged wedi'i gyllidebu o £1.1m<br>• Roedd y rhagolygon masnachu diwygiedig ar gyfer GIL bellach yn dangos colled o £166k yn ychwanegol at y golled o £304k a gyllidebwyd, a oedd yn welliant ers rhagolwg mis Hydref.<br>• Parhaodd y rhagolygon ar gyfer Gwasanaethau Glyndŵr a NWS yn unol â'r gyllideb.<br>• Cwblhawyd y gwerthiant ar safle Heol y Deon ym mis Hydref a arweiniodd at yr elw ar waredu yn dod o fewn y flwyddyn ariannol hon. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Diolchodd yr aelodau i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a chydweithwyr, gan dynnu sylw at ansawdd uchel yr adroddiad a'r gwaith a oedd yn sail iddo. Nodwyd bod sefyllfa ariannol y flwyddyn gyfredol yn rhesymol, ond disgwylir darlun mwy heriol y flwyddyn nesaf. Yn ystod y drafodaeth nodwyd:<br><br>• Roedd costau staff wedi codi eleni, wedi'u sbarduno'n rhannol gan gynnydd yng nghynllun pensiwn athrawon a nifer o brosiectau;<br>• Croesawodd yr aelodau ychwanegu gwybodaeth ariannol am Addysg Drawswladol, darpariaeth ar y cyd, a chontract AaGIC i'r adroddiad. Mewn perthynas â phartneriaethau, nodwyd bod Coleg MBS ac IST (y ddau yng Ngwlad Groeg) yn parhau i fod yn bryder gyda symiau sylweddol yn ddyledus i'r Brifysgol; roedd staff Cyllid a'r swyddfa Partneriaethau yn gweithio i'w datrys;<br>• O ran is-gwmnïau, nodwyd bod rhagolwg GIL wedi gwella ychydig ers Chwarter 1. Roedd NWS yn parhau i fod yn sefydlog ond nid oedd effaith y cynnydd mewn cyflog byw gwirioneddol (erbyn mis Ebrill 2024) wedi cael ei hystyried; roedd Bwrdd NWS yn ystyried sut byddai hyn yn cael ei reoli, gan gynnwys yr effaith ar wahaniaethau ar rolau staff eraill;<br>• Cafodd y Bwrdd ei galonogi gan geisiadau myfyrwyr i raglenni israddedig ar gyfer 2024/25, ond roedd gallu'r Brifysgol i droi ceisiadau yn gofrestriadau yn bryder. Y gobaith oedd y byddai cyfraddau trosi yn gwella ar gyfer 2024/25, a fyddai'n rhoi hwb i sefyllfa ariannol y Brifysgol;<br>• Holodd aelodau pam y talodd y Brifysgol ffioedd asiantau rhyngwladol ymlaen llaw. Gan fod y Brifysgol yn mynnu bod myfyrwyr rhyngwladol yn talu eu ffioedd llawn ymlaen llaw (yn wahanol i lawer o Brifysgolion eraill), nodwyd bod y dull hwn yn cael ei ystyried yn un teg.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad | |
| | | |
| | | |
| **BG2324/67** | **Partneriaethau Academaidd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad diweddaru ar Bartneriaethau Academaidd<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor Prosiectau Newid Strategol ddiweddariad ar faterion yn ymwneud â Phartneriaethau Academaidd, gan gynnwys:<br><br>• Datblygu Gweithdrefn Partneriaethau Academaidd newydd a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, yn amodol ar rai diwygiadau. Nodwyd y byddai'r weithdrefn hon yn darparu mecanweithiau mwy cadarn ar gyfer cymeradwyo partneriaid academaidd newydd arfaethedig a sicrhau sicrwydd ansawdd, gwella a monitro a goruchwylio llywodraethu effeithiol ar gyfer yr holl bartneriaethau academaidd presennol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Roedd adolygiad ansawdd o'r holl bartneriaethau academaidd presennol wedi'i ddechrau.<br>• Roedd y Swyddfa Partneriaethau wrthi'n datblygu Strategaeth Partneriaethau Academaidd, a fyddai'n cael ei chyd-gynhyrchu ochr yn ochr â Strategaeth Ryngwladol i sicrhau cysondeb ar lefel strategol.<br><br>Croesawodd y Bwrdd yr adroddiad a'r datblygiadau cysylltiedig ynghylch partneriaethau academaidd, a thynnodd sylw at bwysigrwydd cael yr eitem sefydlog hon yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Nodwyd, o dan y Weithdrefn Partneriaethau Academaidd newydd, y byddai unrhyw Bartneriaethau newydd yn cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd fel mesur dros dro nes bod y Bwrdd a'r rheoleiddiwr yn hyderus bod y weithdrefn wedi'i gwreiddio'n llawn.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad | |
| **BG2324/68** | **Cynllun Gweithredu Sicrhau Ansawdd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cynllun gweithredu Adolygiad ASA<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Dirprwy Is-Ganghellor Prosiectau Newid Strategol ddiweddariad ar gynnydd cynllun gweithredu adolygiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, a oedd yn eitem sefydlog ar y Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd, y Bwrdd Academaidd, a'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd yn ogystal ag adrodd i VCET a'r Bwrdd. Nododd yr aelodau:<br><br>• Roedd yr holl gamau gweithredu ar y trywydd iawn ac yn mynd rhagddynt yn dda, ac adolygwyd y cynllun gweithredu mewn cyfarfodydd monitro misol gyda CCAUC yn ogystal â phwyllgorau mewnol y Brifysgol.<br>• Roedd y cyfarfod gyda CCAUC ym mis Chwefror wedi bod yn gadarnhaol, lle roedd y Brifysgol yn gallu rhoi sicrwydd ar faterion amrywiol gan gynnwys ymgysylltu â myfyrwyr.<br>• Nodwyd bod y Brifysgol yn bwriadu lleihau'r ddibyniaeth ar ymgynghorwyr allanol ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol, gyda'r bwriad o sicrhau arweinyddiaeth a pherchnogaeth ar newidiadau gan ei staff ei hun. Croesawyd y symudiad hwn gan CCAUC.<br><br>Croesawodd yr aelodau'r diweddariad, a oedd yn bwynt cyfeirio defnyddiol i helpu i hysbysu penderfyniadau'r Bwrdd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad | |
| **BG2324/70** | **Pwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Adroddwyd:**<br>Rhoddodd y Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ddiweddariad llafar ar gais y Brifysgol am Bwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil (RDAP). Adroddwyd bod disgwyl i’r adroddiad terfynol gan yr ASA gael ei gyhoeddi ar 22ain Mawrth, gyda’r Brifysgol yn cael ei gwahodd i ddarparu sylwadau erbyn 29ain Mawrth. Diolchodd yr aelodau i'r Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil a chydweithwyr am eu gwaith i gefnogi'r broses hon a nododd y dyddiad disgwyliedig ar gyfer canlyniad. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfynwyd:**<br>NODI’R adroddiad | |
| **BG2324/71** | **Campws 2025** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Derbyniwyd:**<br>Diweddariad ac adroddiad cynnydd ar ddatblygiadau Campws 2025<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol ddiweddariad ar nifer o faterion mewn perthynas â strategaeth a rhaglen gyflawni Campws 2025 fel a ganlyn:<br><br>1. <u>Diweddariadau cyfreithiol</u><br><br>Cytunwyd mewn egwyddor ar y Penawdau Telerau ar gyfer gwerthu tir dros ben y Brifysgol ar Heol Crispin i Glwb Pêl-droed Wrecsam i hwyluso datblygiad y Kop newydd, ac eithrio ar gyfer prisio'r tir sydd i'w werthu/trosglwyddo. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru ynghylch gwerth tir cyfagos ar y farchnad yr oeddent hefyd yn ei werthu i'r clwb pêl-droed; felly roedd penderfyniad wedi'i wneud gan y Brifysgol i beidio â chytuno ar unrhyw bris prynu nes bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei safbwynt i sicrhau cydraddoldeb o ran costau fesul hectar ar gyfer y ddau dêl. Roedd y Brifysgol wedi dewis gwerthu'r isafswm o dir oedd ei angen ar y clwb pêl-droed i adeiladu'r Kop newydd, gan gadw rhywfaint o dir er mwyn gallu ehangu llety myfyrwyr os a phan fo angen. Fel rhan o'r cytundeb i werthu'r tir, roedd Partneriaeth Porth Wrecsam wedi cytuno i gynnwys cyllid ar gyfer dylunio a chynllunio llety myfyrwyr ar Heol Crispin gwerth £500k. Nodwyd y cytunwyd ar hyn ar sail llyfr agored; ni fyddai'r Brifysgol yn cael budd o unrhyw danwariant ar y swm hwnnw, ond byddai Partneriaeth Porth Wrecsam yn talu am unrhyw orwariant. Byddai cynnig llawn yn cael ei gyflwyno i Fwrdd y Llywodraethwyr yn y dyfodol.<br><br>2. <u>Prosiectau cyfalaf</u><br><br>2.1. Roedd Cam 2A HEIQ (gwaith adnewyddu llawr gwaelod/ailfodelu adeilad Bevan) wedi'i gwblhau ac roedd bellach yn cael ei ddefnyddio gan staff a myfyrwyr. Roedd yr adborth gan ddefnyddwyr wedi bod yn gadarnhaol iawn.<br>2.2. Roedd Cam 2B HEIQ (estyniad aml-lawr newydd i adeilad Bevan) wedi cael caniatâd cynllunio. Roedd proses dendro ar waith a rhagwelir y bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod haf 2024.<br>2.3. Roedd gwaith adeiladu EEOC wedi dechrau yn dilyn digwyddiad torri tywarchen gyda rhanddeiliaid allanol ar 22 Chwefror 2024.<br>2.4. Roedd prosiect yr Ardal Gwyddoniaeth a Pheirianneg yn mynd rhagddo gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith ym mis Gorffennaf 2024.<br>2.5. Roedd y broses dendro ar gyfer adnewyddu'r Rhwydwaith Ardal Leol wedi'i chwblhau, a chyfanswm y pris gan gynnwys TAW ar gyfer y bidiwr llwyddiannus (Insight Direct Ltd) oedd £405k. Rhoddodd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid<br>awdurdod dirprwyedig i'r Is-Ganghellor a'r Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol | |

| | | |
|---|---|---|
| | gymeradwyo'r Adroddiad Dyfarnu Contractau yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror; roedd bwrdd prosiect bellach yn cael ei sefydlu i oruchwylio'r prosiect.<br>2.6. Nododd yr aelodau lyfryn a gynhyrchwyd i amlinellu gweledigaeth arfaethedig y Brifysgol ar gyfer campws Llaneurgain, a fyddai'n cefnogi trafodaethau cyn ymgeisio gyda Chyngor Sir y Fflint ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu ar y safle.<br>2.7. Roedd y gwaith wedi dechrau ar yr Academi Arloesedd Seiber a disgwylir iddo gael ei gwblhau ym mis Mai 2024.<br><br>3. <u>Llety myfyrwyr</u><br><br>Roedd gwaith cwmpasu ar y gweill i adolygu opsiynau dylunio a deall maint tebygol y galw am lety myfyrwyr yn y dyfodol gyda'r bwriad o ehangu'r ddarpariaeth llety ar Gampws Plas Coch.<br><br>Fel rhan o'r trafodaethau gyda Chlwb Pêl-droed Wrecsam a Phartneriaeth Porth Wrecsam ynghylch gwerthu tir i gefnogi'r gwaith o adeiladu'r eisteddle Kop newydd, cytunwyd y byddai'r Bartneriaeth yn ariannu costau'r Brifysgol o ran cynllunio a chael caniatâd cynllunio i adeiladu llety newydd ar y campws. Felly, ceisiwyd cymeradwyaeth y Bwrdd i fwrw ymlaen â'r ail-ddylunio a'r cais cynllunio; roedd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid wedi ystyried y mater yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror ac argymhellodd y dylai'r Bwrdd ei gymeradwyo.<br><br>Nodwyd nad oedd y datblygiad terfynol wedi'i ariannu o fewn cynlluniau presennol Campws 2025. O ganlyniad, byddai'r Weithrediaeth yn gofyn am fewnbwn allanol i archwilio opsiynau i gaffael ac ariannu unrhyw ddatblygiad a gwneud argymhellion. Byddai achos busnes llawn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn y dyfodol, ac ar y pwynt hwnnw byddai opsiynau cyllid a chyllido manwl yn cael eu hystyried.<br><br>4. <u>Gwyddoniaeth Gogledd Cymru.</u><br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gweithredol fod NWS wedi llwyddo i sicrhau Cyllid Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) gwerth £1.6m. Roedd elfennau o'r cyllid a ddyfarnwyd yn cynnwys gwaith i ail-doi'r adeilad yn Xplore!, oedd yn werth tua £730k. Dywedwyd bod y Rheolwr Prosiectau Cyfalaf wrthi'n ysgrifennu'r contract. Nododd yr aelodau fod NWS yn ddarostyngedig i Reoliadau Ariannol y Brifysgol ac felly roedd angen cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer y gwaith, er bod y prosiect yn cael ei ariannu'n llawn gan ddyraniad UKSPF.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad<br>CYMERADWYO cyflwyno ail-ddyluniad llety myfyrwyr a chais am ganiatâd cynllunio<br>CYMERADWYO gwaith ar do NWS/Xplore! gwerth £730k | |
| **BG2324/72** | **Rheoli Risg Gorfforaethol** | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar y dull o reoli risg corfforaethol yn y Brifysgol<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg adroddiad a oedd yn amlinellu cynnydd o ran adrodd ar reoli risg gorfforaethol yn y Brifysgol. Roedd y fframwaith adrodd ar risg yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, ac roedd sesiwn yn Niwrnod Datblygu Strategaeth y Bwrdd ym mis Ionawr wedi tynnu sylw at anghysondebau mewn dulliau a dealltwriaeth o risg a oedd wedi bod yn destun archwiliad pellach ers hynny. Byddai cynnig ar gyfer Proses Rheoli Risg newydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Mawrth. Er mwyn sicrhau nad oedd bwlch pellach o ran adolygu ac adrodd ar risg wrth i broses newydd gael ei datblygu, byddai crynodeb risg corfforaethol cyfredol a 'map gwres' hefyd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor hwnnw.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad | |
| **BG2324/73** | **Adroddiad y Bwrdd Academaidd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y Bwrdd Academaidd<br><br>**Derbyniwyd:**<br>Cyflwynodd yr Is-Ganghellor adroddiad am weithgarwch y Bwrdd Academaidd yn ei gyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Chwefror a 23 Chwefror. Nododd yr aelodau fod cofnodion llawn y cyfarfodydd hynny ar gael ar wahân.<br><br>Gofynnwyd i'r Bwrdd hefyd gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer y Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfaoedd Ymchwilwyr, i'w anfon i'r Concordat a'i gyhoeddi ar dudalennau gwe allanol y Brifysgol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad<br>CYMERADWYO'R Adroddiad Blynyddol ar gyfer y Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfaoedd Ymchwilwyr | |
| **BG2324/74** | **Defnyddio Sêl y Brifysgol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar ddefnyddio Sêl y Brifysgol<br><br>**Adroddwyd:**<br>Adroddodd y Clerc ar achosion o ddefnyddio Sêl y Brifysgol ers mis Gorffennaf 2023, yn unol â'r penderfyniad a wnaed gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2017. Nododd yr aelodau fod y sêl wedi cael ei roi ar y dogfennau contract canlynol ar ôl cymeradwyo dyfarnu contractau:<br><br>• Contract gyda Bellway Homes ar gyfer gwerthu tir ar Ffordd y Deon, Wrecsam (Medi 2023) | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Contract gydag Appollo Engineering ar gyfer gwaith ymgynghori ar hydrogen fel rhan o brosiect y Ganolfan Menter Peirianneg ac Opteg (EEOC) (Hydref 2023)<br>• Contract gyda Chyngor Gwynedd (ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru) ar gyfer cytundeb cyllido EEOC (Ionawr 2024)<br>• Contract gyda C. Wynne a'i Feibion (yn masnachu fel Wynne Construction) ar gyfer adeilad EEOC (Ionawr 2024)<br>• Contract gyda Quantum Design Ltd ar gyfer cyflenwi a darparu Infferomedr ar gyfer OpTIC/EEOC (Ionawr 2024)<br>• Contract gyda Lambda Photometrics Ltd ar gyfer cyflenwi a darparu Microsgop Electron ar gyfer OpTIC/EEOC (Ionawr 2024)<br>• Contract gyda Perkinelmer AES Ltd ar gyfer cyflenwi a darparu Sbectromedr ar gyfer OpTIC/EEOC (Chwefror 2024)<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad | |
| **BG2324/75** | **Ffioedd dysgu a chymorth ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Y diweddaraf am derfynau ffioedd dysgu a chymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Clerc adroddiad yn dilyn cyhoeddiad ym mis Chwefror 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r terfyn ffioedd dysgu israddedig yn cynyddu o £9000 i £9250 y flwyddyn, yn unol â sefydliadau yn Lloegr. Roedd y datganiad hefyd yn cynnwys newidiadau i'r system cymorth ariannol i ôl-raddedigion, gan symud o grant i fenthyciad o 2024/25 ymlaen.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad | |
| **BG2324/76** | **Adroddiad y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid adroddiad cryno o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2024.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad<br>NODI bod cofnodion llawn wedi cael eu rhannu ag aelodau ar wahân | |
| **BG2324/77** | **Adroddiad y Pwyllgor Pobl a Diwylliant** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y Pwyllgor Pobl a Diwylliant | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant adroddiad cryno o’r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2024. Gofynnwyd i’r Bwrdd hefyd gymeradwyo’r Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru diwygiedig, a oedd wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor a argymhellodd ei gymeradwyo.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI’R adroddiad<br>NODI bod cofnodion llawn wedi cael eu rhannu ag aelodau ar wahân<br>i GYMERADWYO Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru | |
| **BG2324/78** | **Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu adroddiad cryno ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2024.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI’R adroddiad<br>NODI bod cofnodion llawn wedi cael eu rhannu ag aelodau ar wahân | |
| **BG2324/79** | **Adroddiad y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd adroddiad cryno o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Chwefror. Gofynnwyd i’r Bwrdd hefyd gymeradwyo’r Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd, Safonau a Rheoleiddio, a oedd wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor a argymhellodd ei gymeradwyo.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI’R adroddiad<br>NODI bod cofnodion llawn wedi cael eu rhannu ag aelodau ar wahân<br>i GYMERADWYO Cylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Ansawdd, Safonau a Rheoleiddio | |
| **BG2324/80** | **Cofnodion cyfarfodydd is-gwmnïau** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Nododd yr aelodau bod cofnodion cyfarfodydd is-gwmnïau wedi cael eu darparu ar wahân<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI’R adroddiad | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **BG2324/81** | **Dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau 2024/25** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Dyddiadau dros dro ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn 2024/25<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Clerc restr o ddyddiadau cyfarfodydd dros dro ar gyfer 2024/25, gan dynnu sylw at y newidiadau allweddol canlynol i'r cylch:<br><br>• Byddai cyfarfodydd mis Tachwedd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid, Archwilio a Risg, a Bwrdd y Llywodraethwyr yn cael eu trefnu wythnos yn ddiweddarach nag yn ystod y blynyddoedd blaenorol er mwyn caniatáu amser ychwanegol ar gyfer cwblhau'r archwiliad allanol cyn i'r cyfrifon gael eu cyflwyno i'r rheoleiddiwr.<br>• Byddai cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr hydref er mwyn gallu craffu ar y Datganiadau Sicrhau Ansawdd Blynyddol cyn cymeradwyo gan y Bwrdd a'u cyflwyno i'r rheoleiddiwr.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI dyddiadau'r cyfarfodydd | |
| **BG2324/82** | **Cynllun Ffioedd a Mynediad – cynnydd mewn ffioedd dysgu** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cynnig ynghylch amrywio Cynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol (FAP)<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd yr Is-Ganghellor gynnig i gynyddu'r ffi dysgu israddedig i'r uchafswm a ganiateir o £9250 y flwyddyn o fis Medi 2024 ymlaen, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i godi'r terfyn (Cyfeiriad yng nghofnod BG2324/75).<br>Adroddwyd bod y FAP ar gyfer 2023/24 a 2024/25 wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mai 2022 a'i fod yn datgan:<br><br>• Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i newid y ffi uchaf honno yn unol â'r uchafswm a ganiateir gan Lywodraeth Cymru;<br>• Rhaid gwneud unrhyw newid mewn ymgynghoriad ag Undeb y Myfyrwyr;<br>• Rhaid cyfleu unrhyw newid yn glir i'r myfyrwyr yr effeithir arnynt.<br><br>Nodwyd bod y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid wedi cymeradwyo'r cynnydd mewn ffioedd yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, yn amodol ar gynllun cyfathrebu clir i'r myfyrwyr yr effeithir arnynt. Ar ôl i VCET ystyried y cylch recriwtio presennol a geiriad y llythyr cynnig, penderfynwyd y byddai myfyrwyr newydd yn 2024/25 yn dechrau eu hastudiaethau ar £9,000 ac yn symud i £9250 yn y blynyddoedd dilynol.<br>Byddai'r ffi o £9250 yn berthnasol i bob myfyriwr sy'n parhau o 2024/25 ymlaen.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO'R amrywiad i'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, a dirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd i lofnodi amrywiad o'r fath | |